# Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Adran E: Deilliannau myfyrwyr, Byrddau Dyfarnu, a'r broses ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad** ..... **1**

**2 Y bwrdd dyfarnu** ..... **1**

Aelodaeth a gweithrediad ..... 1

Cyfrifoldebau'r bwrdd dyfarnu ..... 1

**3 Atgyfeirio gwaith** ..... **2**

a) Cyn atgyfeirio gwaith ..... 2

b) Tystiolaeth ..... 3

c) Penderfyniadau ..... 3

d) Asesu ailgyflwyniadau a atgyfeirir ..... 4

e) Canlyniadau posibl ailgyflwyniad wedi'i atgyfeirio a ganiateir ar ddiwedd cwrs ..... 4

**4 Amgylchiadau esgusodol** ..... **4**

**5 Graddau aegrotat a graddau ar ôl marwolaeth** ..... **5**

**6 Dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol** ..... **5**

a) Penderfynu a ellir dyfarnu uned neu radd drwy ystyried amgylchiadau esgusodol ..... 6

b) Tystiolaeth ..... 7

c) Penderfynu a ellir dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol ..... 7

**7 Camymddwyn academaidd** ..... **8**

**8 Apeliadau** ..... **8**

a) Apeliadau y gellir eu dwyn gerbron y Bwrdd Dyfarnu ..... 8

b) Apeliadau sy'n benodol berthnasol i'r broses ddyfarnu eithriadol ..... 9

c) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Fyrddau Dyfarnu ..... 10

**9 Cwynion** ..... **10**

**10 Dogfennu** ..... **10**

**11 Proses ardystio'r Asiantaeth DMiAU** ..... **11**

**Atodiad E1** ..... **12**

Beth sy'n digwydd os bydd myfyriwr yn methu cyflwyno'r holl dystiolaeth asesu sy'n ofynnol i ddyfarnu uned(au) sy'n rhan o'r Diploma? ..... 12

Beth yw'r trefniadau ar gyfer unedau lle nad yw carfan yn gallu cyflwyno'r holl dystiolaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu unedau? ..... 12

Pa ffynonellau tystiolaeth y gellir eu defnyddio? ..... 12

Beth yw tystiolaeth ddigonol? ..... 13

Beth i'w wneud os na fydd hi'n bosibl cael digon o dystiolaeth i ddyfarnu uned? ..... 13

**Atodiad E2** ..... **14**

**Rheoli fersiynau** ..... **15**

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn crynhoi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') eu cymryd i sicrhau bod dyfarniadau a deilliannau'r myfyrwyr yn cael eu rheoli a'u prosesu mewn ffordd briodol. Mae Amod F1.1 yr Amodau Mynediad i AU yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU eu dilyn.

Mae'r corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU yn sicrhau y gweithredir gweithdrefnau i ddyfarnu ac ardystio'r Diploma Mynediad i AU. At ddibenion gweithredol, mae'r Asiantaeth DMiAU yn dirprwyo'r awdurdod hwn i Fwrdd Dyfarnu (neu i Fyrddau Dyfarnu, os bydd y darparwyr yn gyfrifol am wneud hynny). Mae'r prif safonwr, neu unigolyn arall a benodir gan yr Asiantaeth DMiAU, yn gweithredu fel cynrychiolydd yr Asiantaeth DMiAU ar y bwrdd hwn.

# 2 Y bwrdd dyfarnu

Mae gofynion QAA i Asiantaethau DMiAU wedi eu nodi yn Adran F: 'Dyfarnu'r cymhwyster' yn yr *Amodau Mynediad i AU*. Yn ôl Amod F1.1, "Dylai'r gweithdrefnau sydd gan yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU sicrhau […] y gwneir penderfyniadau dyfarnu gan Fwrdd Dyfarnu Terfynol sy'n gweithredu'n unol â'r *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch*."

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion a'r disgwyliadau mewn perthynas â'r Bwrdd Dyfarnu Terfynol.

## Aelodaeth a gweithrediad

- Mae'r Asiantaeth DMiAU yn nodi beth yw cyfansoddiad y Byrddau Dyfarnu.
- Gallai manyleb yr Asiantaeth DMiAU ganiatáu i Fyrddau Dyfarnu wahaniaethu yn eu maint a'u cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu maint, amrediad a chyfundrefn y cwrs/cyrsiau sy'n cael eu hystyried, ond mae'n rhaid i'r fanyleb sicrhau y bydd y byrddau'n gallu ystyried holl gyflawniad a pherfformiad y myfyriwr ym mhob uned sy'n cyfrannu at bob gradd a ddyfernir.
- Rhaid i fanylebau aelodaeth gynnwys y prif safonwr (neu swyddog cyfatebol), aelod arall o staff yr Asiantaeth DMiAU sy'n ei chynrychioli (a allai fod yn swyddog yr Asiantaeth DMiAU neu'n safonwr allanol arall), yn ogystal ag o leiaf un cynrychiolydd darparwr. Os oes angen ystyried mwy nag un cwrs yn ystod yr un cyfarfod, mae'n rhaid i safonwyr a darparwyr fod yn bresennol sy'n gallu cynrychioli pob un o'r cyrsiau.
- Rhaid gweithredu'r Bwrdd Dyfarnu gan ddilyn agenda safonol a ddarperir gan yr Asiantaeth DMiAU, a rhaid cofnodi pob cyfarfod yn unol â gofynion yr Asiantaeth DMiAU.
- Rhaid cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Dyfarnu gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod(ydd) safoni terfynol perthnasol. Dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod digon o amser ar gael rhwng y cyfarfod safoni terfynol a chyfarfodydd y Bwrdd Dyfarnu er mwyn caniatáu cwblhau unrhyw gamau gweithredu (megis darparu gwybodaeth ychwanegol) a gymerir o ganlyniad i benderfyniadau a wneir yn y cyfarfod(ydd) safoni terfynol.

## Cyfrifoldebau'r bwrdd dyfarnu

- Prif gyfrifoldeb y Bwrdd Dyfarnu yw cymeradwyo penderfyniadau i ddyfarnu credydau, graddau a Diplomâu Mynediad i AU, gan gynnwys penderfyniadau i ddyfarnu Diplomâu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol.

- Mae'r prif safonwr yn gyfrifol am gadarnhau'r beirniadaethau asesu. Mae cadeirydd y Bwrdd Dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod y broses briodol yn cael ei gweithredu.
- Ar gyfer pob myfyriwr y mae dyfarniad y Diploma Mynediad i AU yn cael ei gymeradwyo iddynt, bydd y Bwrdd Dyfarnu'n cadarnhau bod y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma Mynediad i AU penodol wedi eu cyflawni a bod y proffiliau graddau a chredydau'n gywir ac yn gyflawn.
- **Ni chaiff y Bwrdd Dyfarnu dderbyn unrhyw wybodaeth am gynigion i'r myfyrwyr symud ymlaen i addysg uwch**, ac ni chaiff gwybodaeth o'r fath chwarae unrhyw ran yn ei ystyriaethau. (Bydd cyfarfod y Bwrdd Dyfarnu'n cael ei gau'n ffurfiol cyn i unrhyw wybodaeth o'r fath gael ei rhannu.)

Mae'r Bwrdd Dyfarnu hefyd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r canlynol:

- atgyfeiriadau
- amgylchiadau esgusodol
- graddau aegrotat a graddau ar ôl marwolaeth
- achosion o gamymddwyn academaidd
- apeliadau.

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU hefyd fod â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag apeliadau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau Byrddau Dyfarnu (Amod A2; Amod A5).

# 3 Atgyfeirio gwaith

Fel arfer, caiff myfyriwr un cyfle yn unig i ailgyflwyno'r gwaith sydd wedi methu bodloni pob un o ofynion y deilliannau dysgu cysylltiedig (gwelwch Adran C). Mae'r broses atgyfeirio'n caniatáu i dîm y cwrs argymell y dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro. Os bydd hyn yn digwydd yn ystod y cwrs, mae'n rhaid gwneud yr argymhelliad i'r prif safonwr neu'r safonwr allanol, gan ddilyn y prosesau a'r gofynion o ran tystiolaeth sydd wedi eu disgrifio yn Atodiad C1 Adran C. Os bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd cwrs, mae'n rhaid cymryd yr argymhelliad at y Bwrdd Dyfarnu, gan ddilyn y prosesau a'r gofynion o ran tystiolaeth sydd wedi eu disgrifio isod. Mae'r Bwrdd Dyfarnu'n gyfrifol am benderfynu a ddylid rhoi cyfle i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro ac, os felly, beth fyddai'r gofynion penodol gorau o ran ailgyflwyno. Mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y myfyrwyr yn cael gwybod am y penderfyniad hwn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod (gwelwch Atodiad E2).

## a) Cyn atgyfeirio gwaith

**Cyn ystyried cais am atgyfeirio**, bydd yn rhaid i'r Bwrdd Dyfarnu gadarnhau:

- bod y myfyriwr wedi cwblhau'r broses ailgyflwyno ac wedi methu cyflawni pob un o'r deilliannau dysgu ar gyfer y gwaith a atgyfeirir
- nad yw'r myfyriwr wedi cyflawni nifer ddigonol o gredydau i fod yn gymwys i dderbyn y Diploma Mynediad i AU
- bod tîm y cwrs wedi ymgynghori â'r rheiny sy'n ymwneud ag asesu a safoni gwaith y myfyriwr, a bod y safonwr allanol yn cefnogi'r cais am atgyfeirio
- bod y tiwtoriaid wedi trafod gyda'r myfyriwr beth fyddai'r ffordd orau ymlaen
- bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r ffaith na fydd y broses atgyfeirio'n arwain yn awtomatig at gymeradwyo'r cais am ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro
- bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y Bwrdd Dyfarnu'n penderfynu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir iddo, a ddylid cynnig cyfle pellach i gyflwyno un neu fwy o aseiniadau.

## b) Tystiolaeth

Mae'n rhaid i **unrhyw dystiolaeth i ategu'r cais am atgyfeirio** gyfeirio at y canlynol:

- unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar y myfyriwr unigol
- yr aseiniadau penodol hynny a'r nifer o unedau lle argymhellir i'r bwrdd bod y myfyriwr yn cael ei atgyfeirio
- manylion y cyflawniad a geir yn y cyflwyniadau/ailgyflwyniadau gwreiddiol ar gyfer yr uned(au) dan sylw (gan gynnwys unrhyw aseiniadau eraill a gyflawnwyd sy'n cyfrannu at asesiad yr uned)
- proffil cyflawniad cyfan y myfyriwr hyd at y pwynt ar y cwrs Mynediad i AU pan ofynnir am yr atgyfeiriad (gan gynnwys teitlau'r unedau, eu gwerth credyd a'r graddau dangosol, a pha unedau a gyflawnwyd, os cyflawnwyd rhai o gwbl, o ganlyniad i ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro'n llwyddiannus wedi iddo gael ei atgyfeirio). Fel arfer, ni ystyrir ceisiadau am atgyfeirio lle mae cyfanswm gwerth credyd yr unedau sydd wedi eu cyflawni'n barod drwy'r broses atgyfeirio, neu a allai gael eu cyflawni o ganlyniad i atgyfeiriad pellach, yn fwy na 15.

## c) Penderfyniadau

Wrth **benderfynu ar geisiadau atgyfeirio**, mae'n rhaid i'r Bwrdd Dyfarnu roi ystyriaeth i'r canlynol:

- a ddylid cynnig cyfle i ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro
- natur a maint y gofynion o ran ailgyflwyno. Rhaid rhoi ystyriaeth i bob un o'r ffactorau sydd wedi eu rhestru yn y rheoliadau ar gyfer ailgyflwyno gwaith am y tro cyntaf (gwelwch adran 4e Atodiad C 'Ailgyflwyno gwaith')
- y dyddiad cau ar gyfer ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro. Gosodir y dyddiad cau hwn gan gymryd i ystyriaeth y canlynol:
    - y bydd angen rhoi gwybod i'r myfyriwr am benderfyniadau'r Bwrdd Dyfarnu, a ddylai ddigwydd gynted ag y bo modd ar ôl cyfarfod y Bwrdd Dyfarnu
    - y bydd angen caniatáu amser rhesymol i'r myfyriwr gwblhau'r ailgyflwyniad
    - y bydd angen asesu'r aseiniad(au) a ailgyflwynwyd
    - y ffaith y dylid ceisio sicrhau, lle bo modd, y bydd y gwaith yn cael ei ailasesu a'r cyflawniad yn cael ei gadarnhau o fewn ffrâm amser a fyddai'n caniatáu i ddeilliannau'r myfyriwr gael eu hardystio gan yr Asiantaeth DMiAU ar yr un pryd â deilliannau myfyrwyr eraill - neu gynted ag y bo modd wedyn.
- gan bwy y bydd y cyfrifoldeb am gadarnhau canlyniad yr ailgyflwyniad, a'r broses ar gyfer cadarnhau. Fel arfer, y tiwtor gwreiddiol fydd yn gyfrifol am asesu'r ailgyflwyniadau a atgyfeirir, a'r prif safonwr fydd yn gyfrifol am gadarnhau cyflawniad, ar ran y Bwrdd Dyfarnu. Gallai'r prif safonwr ymgynghori â safonwr allanol arall sydd ag arbenigedd priodol yn y pwnc perthnasol, os byddan nhw'n ystyried bod angen gwneud hynny.

Gallai'r Bwrdd Dyfarnu gynnig trefniadau amgen, os oes rhaid, i osgoi oedi afresymol. Rhoddir gwybod am bob penderfyniad i'r Asiantaeth DMiAU.

Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr beth yw penderfyniadau'r Bwrdd Dyfarnu am yr atgyfeiriadau a argymhellir, gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod.

### d) Asesu ailgyflwyniadau a atgyfeirir

Gellir hefyd ddefnyddio'r dull o asesu ailgyflwyniadau a atgyfeirir sydd wedi ei ddisgrifio yn Atodiad C2 Adran C ('Asesu gwaith a atgyfeirir') ar gyfer asesu'r ailgyflwyniadau wedi'u hatgyfeirio hynny sy'n digwydd ar ddiwedd cwrs.

### e) Canlyniadau posibl ailgyflwyniad wedi'i atgyfeirio a ganiateir ar ddiwedd cwrs

- **Os bydd ailgyflwyniad a atgyfeirir yn llwyddiannus** (h.y. mae'r gwaith a ailgyflwynwyd wedi iddo gael ei atgyfeirio'n dangos bod y deilliannau dysgu wedi eu cyflawni), gellir rhoi cymeradwyaeth i ddyfarnu credyd. Fel arfer, bydd y prif safonwr yn cymeradwyo hyn ar ran y Bwrdd Dyfarnu, ond os atgyfeirir nifer fawr o achosion, efallai y bydd hi'n briodol cynnal cyfarfod pellach y Bwrdd Dyfarnu.
- Os bydd yr ailgyflwyniad a atgyfeirir yn llwyddiannus ac wedi ei ganiatáu o ganlyniad i gyflwyno gwaith yn hwyr am y tro cyntaf (h.y. heb sicrhau estyniad o flaen llaw neu ystyried amgylchiadau esgusodol) ac yna ceir ailgyflwyniad aflwyddiannus, ni cheir dyfarnu gradd uwch na 'phasio' ar gyfer yr **uned** (yn unol â'r gosb sy'n berthnasol os cyflwynir gwaith yn hwyr).
- Os bydd yr ailgyflwyniad a atgyfeirir yn llwyddiannus ac mae wedi cael ei ganiatáu fel trydydd cais (heb gyflwyniad hwyr blaenorol) gellir defnyddio'r aseiniad wrth raddio'r uned (hynny yw, nid oes cap ar y radd y gellir ei rhoi i'r uned, a dylid ei graddio yn unol â hynny).
- **Os bydd ailgyflwyniad a atgyfeirir yn aflwyddiannus** (h.y. nid yw'r gwaith a ailgyflwynwyd wedi iddo gael ei atgyfeirio'n dangos bod y myfyriwr wedi cyflawni'r deilliant/deilliannau dysgu), ni cheir dyfarnu unrhyw gredyd neu radd ar gyfer yr uned.
- Ni cheir dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU i fyfyrwyr nad yw eu cyflawniadau'n cyfateb â'r rheolau cyfuno ar gyfer y cwrs y maent wedi eu cofrestru arno, neu y maent wedi eu trosglwyddo iddo (yn cynnwys y rheiny y mae eu hail ailgyflwyniad ar ôl yr atgyfeirio'n aflwyddiannus, a'r rheiny sydd wedi ennill nifer annigonol o gredydau i fod yn gymwys i gael eu hatgyfeirio). Dyfernir credydau i'r myfyrwyr hynny, yn ogystal â graddau ar gyfer pob uned (raddedig) ar lefel 3 a gyflawnir ganddynt.

## 4 Amgylchiadau esgusodol

- Mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod gan y darparwyr/canolfannau weithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin â cheisiadau am amgylchiadau esgusodol. Dylai'r gweithdrefnau hyn fod yn eglur a bod ar gael i bob myfyriwr Mynediad i AU. Mae'n rhaid i weithdrefnau pob darparwr/canolfan gynnwys y canlynol:
  - diffiniad clir o amgylchiadau esgusodol
  - y gweithdrefnau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu dilyn er mwyn rhoi gwybod i ddarparwyr/canolfannau am amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar y broses o gwblhau neu gyflwyno gwaith i'w asesu
  - y gweithdrefnau a ddilynir gan y darparwyr/canolfannau pan fyddant wedi cael eu hysbysu am amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar waith y myfyriwr a asesir.
  - gweithdrefnau sy'n ymwneud ag anghenion arbennig a phrosesau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol.

- Yn y mwyafrif o achosion, mae unrhyw amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar gyflawniad mewn unedau unigol (er enghraifft, mewn perthynas â cheisiadau am ymestyn dyddiadau cau) yn cael eu trin ar lefel y cwrs, a gwneir penderfyniadau priodol a chymerir camau gweithredu priodol yn unol â gweithdrefnau cymeradwy'r darparwr/ganolfan. Mae'n rhaid i dimau'r cyrsiau ddogfennu pob cais am amgylchiadau esgusodol, yn ogystal â phob cam gweithredu a gymerir. Bydd hyn nid yn unig yn darparu tystiolaeth y gellir ei harchwilio o benderfyniadau a wneir, bydd hefyd yn helpu'r darparwyr/canolfannau i ddatblygu 'cyfraith achosion' dros amser ynglŷn â pha gamau gweithredu sy'n briodol i'w cymryd mewn sefyllfaoedd penodol, gan felly gefnogi cysondeb yn y ffordd y mae'r darparwyr/canolfannau'n ymdrin â cheisiadau am amgylchiadau esgusodol. Mae'n rhaid i'r safonwr allanol gadarnhau bod gan ddarparwyr/canolfannau weithdrefnau priodol yn eu lle a bod y rhain yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson.
- Bydd y Bwrdd Dyfarnu'n ystyried achosion lle mae amgylchiadau esgusodol wedi effeithio ar berfformiad mewn mwy nag un maes neu mewn unrhyw ffordd arall sydd y tu allan i brosesau arferol y darparwr/ganolfan ac nad ydynt yn derbyn sylw mewn unrhyw ran arall o'r ddogfennaeth hon.
- Os na chymerwyd unrhyw gamau blaenorol, mae'n rhaid i geisiadau am amgylchiadau esgusodol a wneir gerbron y Bwrdd Dyfarnu fod wedi derbyn ystyriaeth gan dîm y cwrs a'r safonwr allanol cyn y cyfarfod. Rhaid dogfennu pob achos yn llawn, gyda thystiolaeth a gyflwynir mewn ffordd safonol a gydag argymhelliad i'r Bwrdd Dyfarnu i nodi a ddylai pob cais unigol am amgylchiadau esgusodol gael eu cefnogi, ac i ba raddau.

## 5 Graddau aegrotat a graddau ar ôl marwolaeth

- Gallai'r Bwrdd Dyfarnu gymeradwyo dyfarnu graddau aegrotat lle mae **amgylchiadau meddygol eithriadol esgusodol ardystiedig** yn bodoli sydd wedi golygu nad yw'r myfyriwr yn gallu cwblhau gofynion y cwrs **a** bod y myfyriwr wedi cyflawni **o leiaf 30 o'r credydau** sy'n ofynnol ar gyfer y Diploma Mynediad i AU. Mewn achosion o'r fath, gellir dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU heb y nifer gyflawn o gredydau a bydd y proffil graddio a'r proffil uned yn anghyflawn. Mae'n rhaid i'r Diploma a ddyfernir nodi ei fod yn ddyfarniad aegrotat.
- Gellir dyfarnu graddau ar ôl marwolaeth yn ôl disgresiwn y Bwrdd Dyfarnu.

## 6 Dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol

Gallai amrywiaeth o gyflyrau sbarduno effeithio ar allu'r myfyrwyr i gwblhau eu hastudiaethau, heb fod unrhyw fai arnyn nhw. O dan rai amgylchiadau eithriadol penodol, gall hyn olygu na all pob un o'r asesiadau ddigwydd, ac mewn sefyllfaoedd fel hyn gellir defnyddio'r broses ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol (y cyfeirir ati hefyd fel 'y broses ddyfarnu eithriadol' o hyn ymlaen) i helpu i ddyfarnu uned(au) sy'n rhan o'r Diploma. Gallai cyflyrau sbarduno posibl gynnwys heriau sy'n wynebu'r myfyriwr neu'r darparwr. Dan amgylchiadau eithriadol fel hyn, bydd gofyn i'r myfyriwr gyflwyno digon o dystiolaeth i gyfiawnhau derbyn eu dyfarniad drwy'r broses ddyfarnu eithriadol.

Bydd y broses ddyfarnu eithriadol:

- yn cael ei rheoli a'i gweithredu gan y Bwrdd Dyfarnu; ac
- wedi ei seilio ar dystiolaeth.

Os bydd y myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd dysgu neu gael eu hasesu yn ystod eu cwrs astudio, bydd trefniadau cymorth ar gael iddyn nhw gan ddarparwr eu cwrs. Gallai'r trefniadau ar gyfer dyfarnu'r Diploma gynnwys:

- dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol
- ystyried cyflawniad rhannol
- rhoi dyfarniad aegrotat
- caniatáu estyniad i'r cwrs astudio.

Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn galluogi i'r darparwyr weithio gyda'u Hasiantaeth DMiAU i sicrhau bod trefniant dyfarnu priodol yn cael ei roi ar waith i ateb anghenion lleol ac anghenion unigol y myfyrwyr.

Bydd pob Asiantaeth DMiAU yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau a ddatblygir i gefnogi gweithrediad y broses ddyfarnu eithriadol yn dal i fod:

- yn addas i'w diben
- yn bodloni gofynion QAA sydd wedi eu nodi'n fanwl yn y ddogfen hon
- yn lleihau unrhyw effeithiau neu gostau ychwanegol ar yr Asiantaethau DMiAU a'r darparwyr/canolfannau.

Bydd pob Asiantaeth DMiAU yn darparu gwybodaeth i'w darparwyr am y prosesau a'r gweithdrefnau a ddatblygir ganddynt i gefnogi gweithrediad y broses ddyfarnu eithriadol, yn ogystal â gwybodaeth a gynhyrchir gan QAA (gwelwch Atodiad E1).

## a) Penderfynu a ellir dyfarnu uned neu radd drwy ystyried amgylchiadau esgusodol

Gallai'r tiwtor/darparwr ddefnyddio naill ai:

- ffynonellau tystiolaeth sefydledig, neu
- ffynonellau tystiolaeth eraill.

Rhaid darparu digon o dystiolaeth i'r tiwtoriaid/darparwyr/canolfannau i'w galluogi i benderfynu a ellir dyfarnu uned drwy ystyried amgylchiadau esgusodol. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i diwtoriaid/darparwyr/canolfannau sicrhau bod ffynonellau tystiolaeth sefydledig ar gael (h.y. asesiad ychwanegol o'r myfyriwr), neu ffynonellau tystiolaeth eraill (tystiolaeth sy'n bodoli'n barod ac sy'n dangos perfformiad y dysgwr).

Er mwyn gallu dyfarnu credyd, rhaid i'r dystiolaeth sydd ar gael fod yn berthnasol i ddeilliannau dysgu pob uned sydd i dderbyn dyfarniad.

Disgwylir y bydd yr Asiantaethau DMiAU a'r darparwyr/canolfannau'n defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i benderfynu pa drefniant dyfarnu fydd yn berthnasol. Dylid gwneud hyn yn ôl yr achos unigol.

### Unedau graddedig

Bydd y trefniadau ar gyfer dyfarnu unedau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol fel y maent wedi eu hamlinellu uchod yn berthnasol hefyd i'r broses o raddio unedau. Disgwylir y bydd y tiwtor/darparwr/ganolfan yn defnyddio naill ai ffynonellau tystiolaeth sefydledig neu ffynonellau tystiolaeth eraill sy'n ddigonol i alluogi gwneud penderfyniadau graddio.

Ar gyfer unedau graddedig, rhaid i'r dystiolaeth sydd ar gael fod yn berthnasol i ddeilliannau dysgu pob uned sydd i dderbyn dyfarniad, ac elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir ar gyfer yr uned.

**Bydd y Bwrdd Dyfarnu'n rheoli ac yn gweithredu'r broses ddyfarnu eithriadol.**

## b) Tystiolaeth

Mae dau fath o dystiolaeth i gefnogi'r broses ddyfarnu eithriadol:

- Ffynonellau tystiolaeth sefydledig - sef asesiad myfyriwr sy'n cael ei gynhyrchu'n benodol i gefnogi'r broses o ddyfarnu uned(au) a gradd(au).
- Ffynonellau tystiolaeth eraill - sef tystiolaeth sy'n bodoli'n barod ac sy'n dangos perfformiad y dysgwr ac y gellir ei defnyddio i hysbysu'r broses o ddyfarnu uned(au) a gradd(au).

Nid oes cyfyngiadau ar y nifer o ddarnau o dystiolaeth, neu'r nifer o wahanol fathau o dystiolaeth y gellir eu cyflwyno. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir fod yn ddigonol er mwyn i'r uned(au) a'r radd/graddau dderbyn dyfarniad, lle bo hynny'n berthnasol. Ni cheir defnyddio rhai mathau penodol o dystiolaeth ar eu pennau eu hunain, er enghraifft:

- cofnod sy'n olrhain cyflawniad a chyrhaeddiad y dysgwr dros y cwrs cyfan
- datganiadau tystion a sylwadau athrawon.

Mae Atodiad E1 yn cynnwys rhestr o dystiolaeth enghreifftiol y gellir ei defnyddio wrth ddyfarnu unedau a graddau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol.

## c) Penderfynu a ellir dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol

Bydd y Bwrdd Dyfarnu'n:

- ystyried a yw'r cais a'r dystiolaeth gysylltiedig a gyflwynir yn awgrymu, wrth bwyso a mesur y tebygolrwydd, bod cyflawniad y myfyriwr wedi ei gyfaddawdu gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth a bod y myfyriwr yn gymwys i gael ei ystyried ar gyfer y broses ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol (y 'broses ddyfarnu eithriadol')
- adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael (tystiolaeth sy'n bodoli eisoes neu dystiolaeth arall) i benderfynu a yw'n ddigonol ar gyfer dyfarnu'r uned(au) (mae hyn yn golygu bod y deilliannau dysgu perthnasol wedi eu cyflawni)
- adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael (tystiolaeth sy'n bodoli eisoes neu dystiolaeth arall) i benderfynu a yw'n ddigonol ar gyfer graddio'r uned (unedau graddedig yn unig)
- ystyried y cais a'r holl dystiolaeth gysylltiedig a gyflwynwyd gan y myfyriwr i benderfynu pa ddulliau y dylid eu defnyddio

Dyma rai o'r dulliau dyfarnu y gellir cael eu defnyddio:

- dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau eithriadol esgusodol
- ystyried cyflawniad rhannol
- rhoi dyfarniad aegrotat
- caniatáu estyniad i'r cwrs astudio.

Os nad yw'n bosibl cynhyrchu digon o dystiolaeth i ddangos bod deilliannau dysgu'r uned wedi eu cyflawni, ni cheir dyfarnu'r uned honno drwy ystyried amgylchiadau esgusodol. Yn rhan o'r broses ddyfarnu eithriadol, gellir defnyddio dulliau dyfarnu eraill (fel y maent wedi eu nodi uchod).

Os nad oes digon o dystiolaeth ar gael i raddio uned, ond mae digon o dystiolaeth i ddangos bod deilliannau dysgu'r uned hon wedi eu cyflawni, bydd y myfyriwr yn derbyn gradd 'pasio'.

Nid oes unrhyw derfyn uchaf ar y nifer o unedau y gellir cael eu dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol.

**Deilliannau**

Bydd pob Asiantaeth DMiAU yn rheoli'r broses ddyfarnu eithriadol i sicrhau y rhoddir gwybod am y deilliannau i'r myfyrwyr ac na fydd unrhyw fanteision neu anfanteision iddynt mewn perthynas â'u cynnydd.

# 7 Camymddwyn academaidd

Yn ôl Amod E3 yr *Amodau Mynediad i AU*, "mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu polisi camymddwyn academaidd i sicrhau y cynhelir ansawdd a safonau ac uniondeb academaidd wrth gynllunio a gweithredu asesiadau." Dylai'r polisi ymwneud â'r canlynol o leiaf: llên-ladrad, cydgynllwynio, 'twyll contract' a'r defnydd derbyniol o offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; dylai hefyd nodi beth, ym marn yr Asiantaeth DMiAU, a ystyrir yn ddefnydd derbyniol, a beth sy'n annerbyniol a sut y gallai hyn gael ei drin fel camymddwyn academaidd.

Bydd pob darparwr yn gweithredu ei weithdrefnau ei hun ar gyfer ymdrin â chamymddwyn academaidd, ac mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU ardystio'r rhain yn unol â'i pholisïau ei hun lle maen nhw'n berthnasol i gyflawniad ar y Diploma Mynediad i AU. Bydd gweithdrefnau o'r fath yn nodi amrywiaeth o gosbau, yn dibynnu ar natur, cwmpas a difrifoldeb y drosedd, i'w defnyddio lle canfyddir bod myfyriwr yn euog o gamymddwyn academaidd. Gallai cosbau gynnwys diarddel y dyfarniad cyfan neu ran ohono, neu ofyn am ailgyflwyno'r gwaith - ond nid newid graddau. Gallai troseddau difrifol/mynych achosi gwahardd y myfyriwr dros dro neu barhaol. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Bwrdd Dyfarnu'n ystyried a ddylid dyfarnu credyd i'r myfyriwr dim ond ar gyfer yr unedau hynny sydd heb gael eu heffeithio gan y camymddwyn.

Un gosb bosib am droseddau llai difrifol sy'n effeithio ar un neu fwy o aseiniadau, yw argymhelliad bod yr aseiniadau hynny a effeithir yn cael eu hystyried yn yr un ffordd ag aseiniadau a oedd yn aflwyddiannus yn dilyn ailgyflwyniad. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Dyfarnu drin achosion o'r fath yn yr un ffordd ag achosion eraill lle nad yw myfyriwr wedi cyrraedd y trothwy i warantu dyfarnu credyd, a dilyn y drefn atgyfeirio. Os bydd camymddwyn academaidd wedi effeithio ar gyflawniad y myfyriwr, rhaid i'r adroddiad am broses y darparwr/ganolfan o ymchwilio'r achos, a beirniadaeth y darparwr/ganolfan, gael eu hystyried fel tystiolaeth.

# 8 Apeliadau

## a) Apeliadau y gellir eu dwyn gerbron y Bwrdd Dyfarnu

Yn ôl Amod A2 yr *Amodau Mynediad i AU*, mae corff uchaf yr Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod ei chynllun cwyno ac apelio'n cael ei weithredu, ac mae Amod A5 yn gofyn bod yr Asiantaeth DMiAU yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddilyn wrth weithredu.

Dyma'r unig seiliau derbyniol ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau i ddyfarnu credydau neu raddau ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU:

- tystiolaeth o wall gweinyddol neu weithredol
- amgylchiadau esgusodol na ellid, am reswm da, roi gwybod amdanynt cyn i'r Bwrdd Dyfarnu gyfarfod.

**Ni chaiff y Bwrdd Dyfarnu dderbyn ceisiadau newydd am ailystyried beirniadaethau academaidd.** Mae'r broses ailystyried yn berthnasol pan fydd myfyriwr yn gofyn i'r dangosyddion graddau heb eu cadarnhau ar gyfer yr uned gael eu hadolygu a'u hailystyried wedi i'r gwaith a aseswyd gael ei raddio ond cyn i'r gwaith gael ei safoni. Os bydd myfyrwyr yn pryderu am benderfyniadau ynglŷn â dyfarnu credydau neu raddau, dylent drafod y pryderon hyn gyda'r aelod perthnasol o dîm y cwrs pan fydd y gwaith a aseswyd yn cael ei ddychwelyd iddynt i ddechrau. Wedi hynny, bydd cyfle iddyn nhw wneud cais am ailystyried drwy'r drefn ffurfiol sydd wedi ei disgrifio yn Adran C. Fodd bynnag, gall myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad graddio a wnaed o ganlyniad i'w gais am ailystyried, ond dim ond ar sail y rhesymau sydd wedi eu nodi uchod. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Dyfarnu dderbyn adroddiad am bob cais am ailystyried sydd wedi arwain at newid graddau.

Os bydd beirniadaethau a roddir gan y Bwrdd Dyfarnu'n arwain at ganiatáu mwy o amser i'r myfyriwr gyflwyno'r gwaith, rhaid i'r penderfyniad asesu terfynol am y gwaith hwnnw, a chofnod y myfyriwr sy'n nodi'r canlyniad hwn, gael eu llofnodi gan rywun o'r Asiantaeth DMiAU sydd â'r awdurdod priodol, er enghraifft y prif safonwr neu gadeirydd y Bwrdd Dyfarnu.

## b) Apeliadau sy'n benodol berthnasol i'r broses ddyfarnu eithriadol

Dyma'r unig seiliau derbyniol ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU:

- tystiolaeth o wall gweinyddol (er enghraifft, os bydd y tiwtor yn cyflwyno cofnod anghywir o'r graddau i'r Asiantaeth DMiAU, os nad yw'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn cael ei defnyddio i wneud beirniadaeth, os nad yw canolrif graddau'r uned yn cael ei gyfrifo'n gywir), neu
- dystiolaeth o wall gweithredol (h.y. defnydd anghywir o'r protocolau ar gyfer dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol).

Ni fydd yr Asiantaeth DMiAU yn derbyn unrhyw apeliadau yn erbyn y canlynol:

- beirniadaethau proffesiynol y tiwtoriaid cwrs
- effeithiolrwydd y dystiolaeth a gyflwynir i ategu beirniadaethau proffesiynol o'r fath.

Mae modd i gynrychiolwyr y darparwyr/canolfannau apelio ar ran eu myfyrwyr neu yn eu rhinwedd eu hunain. Dyma'r unig seiliau derbyniol ar gyfer apeliadau gan ddarparwyr/canolfannau Mynediad i AU:

- tystiolaeth o wall gweinyddol a wneir gan yr Asiantaeth DMiAU (er enghraifft, os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael a ddefnyddir i ategu penderfyniad i ddyfarnu unedau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol)
- tystiolaeth o wall gweithredol a wneir gan yr Asiantaeth DMiAU (er enghraifft, prosesu graddau, neu addasu graddau, mewn ffordd anghywir)
- defnyddio sancsiynau o ganlyniad i honiadau o weinyddiad neu weithrediad amhriodol.

### c) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Fyrddau Dyfarnu

- Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fod â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag unrhyw apeliadau a gyflwynir gan fyfyrwyr yn erbyn penderfyniadau'r Bwrdd Dyfarnu. Rhaid i'r weithdrefn hon sicrhau bod unrhyw apeliadau o'r fath yn cael eu hystyried gan gorff sydd â'r awdurdod priodol, ac sydd ag aelodaeth wahanol i'r Bwrdd Dyfarnu gwreiddiol.
- Dan yr amgylchiadau hyn, dyma'r unig seiliau derbyniol o hyd ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau dyfarnu:
  - tystiolaeth o wall gweinyddol neu weithredol yn y broses asesu
  - amgylchiadau esgusodol na ellid, am reswm da, roi gwybod amdanynt cyn i'r Bwrdd Dyfarnu gyfarfod.
- Os bydd beirniadaethau a roddir gan gorff o'r fath yn arwain at ganiatáu mwy o amser i'r myfyriwr gyflwyno'r gwaith, rhaid i'r penderfyniad asesu terfynol am y gwaith hwnnw, a chofnod y myfyriwr sy'n nodi'r canlyniad hwn, gael eu llofnodi gan rywun o'r Asiantaeth DMiAU sydd â'r awdurdod priodol, er enghraifft y prif safonwr neu gadeirydd y Bwrdd Dyfarnu.

Os bydd yr apelydd o'r farn nad yw'r Asiantaeth DMiAU wedi dilyn y broses apelio, dylent gwyno mewn ysgrifen i QAA o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad derbyn canlyniad eu hapêl gan yr Asiantaeth DMiAU (www.accesstohe.ac.uk/contact-us/concerns).

## 9 Cwynion

Fel y mae wedi ei nodi yn Amodau A5 ac A2, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU hefyd fod â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae cwynion yn wahanol i apeliadau a rhaid eu hystyried ar wahân i apeliadau. Os bydd cwynion yn ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd gan yr Asiantaeth DMiAU, dylid ymdrin â'r rhain drwy weithdrefnau'r Asiantaeth DMiAU ei hun. Os bydd cwynion yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth neu'r ffordd y rheolir y ddarpariaeth, dylid ymdrin â'r rhain drwy drefnau cwyno'r darparwr ei hun, cyn cael eu symud i fyny at yr Asiantaeth DMiAU os yw canlyniad gweithdrefnau'r darparwr yn anfoddhaol.

Os bydd yr achwynydd o'r farn nad yw'r Asiantaeth DMiAU wedi dilyn y broses gwyno, dylent gwyno mewn ysgrifen i QAA o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad derbyn canlyniad eu cwyn gan yr Asiantaeth DMiAU (www.accesstohe.ac.uk/contact-us/concerns).

## 10 Dogfennu

Rhaid gwneud cofnod ffurfiol o bob penderfyniad gan Fyrddau Dyfarnu.

Lle mae'r Bwrdd Dyfarnu'n cytuno i unrhyw addasiadau neu ychwanegiadau i argymhellion y darparwr/ganolfan, mae'r rhain fel arfer yn cael eu cofnodi fel addasiadau i ddogfennaeth yr Asiantaeth DMiAU.

Bydd y prif safonwr yn llofnodi dogfennaeth yr Asiantaeth DMiAU i gadarnhau pob dyfarniad a gymeradwyir a phob penderfyniad arall a wneir gan y Bwrdd Dyfarnu.

Anfonir y ddogfennaeth wedi'i llofnodi yn ôl at yr Asiantaeth DMiAU, erbyn y dyddiad cau penodedig ac yn unol ag unrhyw ofynion adrodd eraill sydd gan yr Asiantaeth DMiAU.

Mae'n rhaid i weithdrefnau'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y dyfarniadau a gyflwynir, a'r deilliannau y rhoddir gwybod amdanynt i'r myfyrwyr, wedi eu seilio ar y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Dyfarnu.

# 11 Proses ardystio'r Asiantaeth DMiAU

Mae Adran F yr *Amodau Mynediad i AU* yn nodi'r gofynion o ran tystysgrifau a thrawsgrifiadau o gyflawniad a gyflwynir gan Asiantaethau DMiAU.

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU wirio'r ddogfennaeth a dderbynnir gan y Bwrdd Dyfarnu i gadarnhau bod dogfennaeth y broses ddyfarnu'n gyflawn a'i bod yn bodloni ei gofynion penodol, gan gynnwys cadarnhau bod llofnod y prif safonwr yn bresennol, a bod y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma Mynediad i AU penodol wedi eu bodloni gan bob myfyriwr sydd wedi cael eu cymeradwyo i dderbyn Diploma.

I ardystio eu bod wedi cyflawni'r Diploma Mynediad i AU, bydd yn rhaid i'r Asiantaeth DMiAU wedyn gyflenwi tystysgrifau wedi eu rhifo'n unigol a thrawsgrifiadau o gyflawniad i'r myfyrwyr. Os bydd un o'r myfyrwyr wedi cyflawni llai na'r 60 credyd sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU, dylai'r Asiantaeth DMiAU gyflwyno trawsgrifiad yn unig sy'n nodi'r unedau, y credydau a, lle bo'n briodol, y graddau a gyflawnwyd.

Lle mae cyflawniad y Diploma Mynediad i AU yn cynnwys credydau a drosglwyddir o gwrs Mynediad i AU arall, mae'n rhaid i'r trawsgrifiad a gyflwynir gan yr Asiantaeth DMiAU ddyfarnu nodi'r credydau a'r graddau hynny a gyflawnwyd ar y cwrs hwnnw a gwblhawyd yn fwyaf diweddar, a dim credydau na graddau eraill. Bydd gan y myfyriwr drawsgrifiad(au) yn barod o gredydau a graddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Os gostyngir maint y credyd sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw unedau lefel 3 diolch i gydnabod dysgu blaenorol, bydd nifer y credydau y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn ennill y Diploma Mynediad i AU yn cael eu gostwng hefyd ar lefel gymesur, a bydd nifer llai o unedau wedi eu cwblhau. Dim ond ar gyfer unedau graddedig ar lefel 3 a gwblhawyd ar y cwrs Mynediad i AU ei hun y dyfernir graddau. Mae'r trawsgrifiad a gyflwynir gan yr Asiantaeth DMiAU ddyfarnu'n nodi'r credydau a'r graddau hynny a gyflawnwyd ar y cwrs Mynediad i AU ac, ar wahân, y dysgu blaenorol a gydnabuwyd gan yr Asiantaeth DMiAU. Os cydnabyddir y dysgu blaenorol drwy achredu dysgu ardystiedig blaenorol, dangosir yn rhan o'r broses o ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw beth oedd safon perfformiad y myfyriwr ar y cymhwyster a gyflwynwyd i'r broses gydnabod dysgu blaenorol ac a achosodd i'r gofyniad am gredydau fod yn is. Ni chaiff yr Asiantaeth DMiAU geisio darparu gradd Mynediad i AU bellach ar gyfer unrhyw waith a gwblhawyd i ennill y cymhwyster/cymwysterau a gyflwynwyd i'r broses gydnabod dysgu blaenorol. Ni chofnodir unrhyw radd am yr unedau a hepgorir ar y trawsgrifiad o gyflawniad Mynediad i AU.

Ar gyfer yr holl ddarpariaeth honno lle mae'r darparwr/ganolfan wedi cyflwyno dogfennaeth y broses ddyfarnu erbyn y dyddiad cau a osodwyd gan yr Asiantaeth DMiAU, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y broses ardystio'n gyflawn ac y rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am y deilliannau erbyn y dyddiad ardystio a gyhoeddir gan yr Asiantaeth DMiAU. Ni ddylid bod unrhyw oedi ym mhrif gyhoeddiad deilliannau'r Asiantaeth DMiAU oherwydd oedi gan y darparwr/ganolfan neu sefyllfaoedd eithriadol unigol.

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fod â gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag apeliadau sy'n codi o wallau wrth gofnodi'r graddau neu'r credydau a enillwyd ar drawsgrifiadau'r myfyrwyr, oherwydd gwall gweinyddol (gwelwch adran 8 'Apeliadau').

# Atodiad E1: Dyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol - gwybodaeth ychwanegol

Cynhyrchir y wybodaeth a ganlyn am y broses ddyfarnu eithriadol ar ffurf cwestiynau i'r Asiantaethau DMiAU a'r darparwyr/canolfannau eu hystyried.

## Beth sy'n digwydd os bydd myfyriwr yn methu cyflwyno'r holl dystiolaeth asesu sy'n ofynnol i ddyfarnu uned(au) sy'n rhan o'r Diploma?

Os na ellir asesu myfyriwr, gallai'r myfyriwr hwnnw ddal i dderbyn yr uned(au) sy'n rhan o'r Diploma drwy gyfrwng y broses ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol. Gallai trefniadau dyfarnu eraill hefyd gynnwys:

- ystyried cyflawniad rhannol
- rhoi dyfarniad aegrotat
- caniatáu estyniad i'r cwrs astudio.

## Beth yw'r trefniadau ar gyfer unedau lle nad yw carfan yn gallu cyflwyno'r holl dystiolaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu unedau?

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng ceisiadau am ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol gan unigolion a 'cheisiadau grŵp' ar lefel y garfan o ganlyniad i heriau trefniadol yn y darparwr/ganolfan.

Dylai'r darparwyr/canolfannau roi gwybod i'w Hasiantaethau DMiAU gynted ag y bo modd am unrhyw heriau ar lefel y garfan.

Os bydd y darparwr/ganolfan yn cyflwyno cais gyda thystiolaeth gysylltiedig i'w chymeradwyo, bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dilyn ei phrosesau ei hun sy'n alinio â'r Bwrdd Dyfarnu. Bydd yr Asiantaeth DMiAU yn asesu pob cais yn ôl yr achos unigol i sicrhau y cymerir cam gweithredu priodol. I wneud hynny, efallai y bydd gofyn i'r Asiantaeth DMiAU esgyn drwy'r prosesau sy'n alinio â'r Bwrdd Dyfarnu. Efallai y bydd yn rhaid gwneud ymchwiliad i'r darparwr/ganolfan hefyd.

## Pa ffynonellau tystiolaeth y gellir eu defnyddio?

I sicrhau bod y broses o ddyfarnu (a graddio) unedau'n ddigon dilys a dibynadwy, bydd tiwtor/darparwr/canolfan yn defnyddio ystod o dystiolaeth briodol i seilio eu beirniadaethau arni. Gallai hynny gynnwys ystod o dystiolaeth sydd ar gael o asesiadau (a ffynonellau eraill) sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n tanategu deilliannau dysgu'r uned - ac unrhyw elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio sydd wedi eu haseinio, lle bo'n berthnasol - er mwyn galluogi i'r myfyrwyr symud ymlaen yn hyderus.

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys rhai esiamplau o ffynonellau tystiolaeth y gallai'r tiwtoriaid/darparwyr/canolfannau eu defnyddio wrth roi beirniadaethau ynglŷn â dyfarnu uned(au) a gwneud penderfyniadau graddio.

Bydd y tiwtoriaid/darparwyr/canolfannau'n ystyried yn ofalus pa dystiolaeth sydd fwyaf priodol i'w defnyddio i ddyfarnu'r uned a'r graddau cysylltiedig, os yw hyn yn berthnasol. Wrth ystyried y dystiolaeth i'w defnyddio, rhaid bod yn ofalus er mwyn osgoi rhoi unrhyw fantais neu anfantais annheg i fyfyriwr unigol neu grwpiau o fyfyrwyr. Mae'n rhaid i'r broses sicrhau bod y tiwtor/darparwr/ganolfan yn rhoi beirniadaethau teg a rhesymol sydd wedi eu hystyried yn ofalus.

Nid oes cyfyngiadau ar y nifer o ddarnau o dystiolaeth, neu'r nifer o wahanol fathau o dystiolaeth y gellir eu cyflwyno. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir fod yn ddigonol er mwyn i'r uned(au) a'r radd/graddau dderbyn dyfarniad, lle bo hynny'n berthnasol. Ni cheir defnyddio rhai mathau penodol o dystiolaeth ar eu pennau eu hunain, er enghraifft:

- cofnod sy'n olrhain cyflawniad a chyrhaeddiad y dysgwr dros y cwrs cyfan
- datganiadau tystion a sylwadau athrawon.

Isod mae rhestr o dystiolaeth enghreifftiol y gellir ei defnyddio wrth ddyfarnu unedau a graddau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac nid yw chwaith yn awgrymu y byddai'r holl dystiolaeth neu unrhyw ran o'r dystiolaeth yn briodol i'w defnyddio.

- asesiadau crynodol, gan gynnwys asesiadau crynodol wedi'u cwblhau'n rhannol (asesu'r dysgu)
- asesiadau ffurfiannol (asesiad ar gyfer dysgu)
- nodiadau (y myfyriwr a/neu'r tiwtor) am weithgareddau yn y dosbarth
- cofnodion o drafodaethau proffesiynol/academaidd (ar lafar)
- nodiadau gwaith ymchwil
- dyddlyfr ymarfer myfyriol / cofnod dysgu
- blogiau, erthyglau 'wici', negeseuon grwpiau sgwrs rhwng dysgwyr ar gyfer sesiynau a addysgir; os defnyddir tystiolaeth o'r math yma, dylid cadw at y ddeddfwriaeth diogelu data
- tystiolaeth o brofiad gwaith (lle bo'n berthnasol)
- cofnod sy'n olrhain cyflawniad a chyrhaeddiad y dysgwr dros y cwrs cyfan, ar yr amod y defnyddir hwn ochr yn ochr â mathau eraill o dystiolaeth asesu
- datganiadau tystion a sylwadau athrawon, ar yr amod y defnyddir hyn ochr yn ochr â mathau eraill o dystiolaeth asesu.

## Beth yw tystiolaeth ddigonol?

Dylai tystiolaeth ddigonol:


- adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ar gael
- ddangos bod deilliannau dysgu wedi eu cyflawni
- ategu penderfyniadau graddio
- fod yn eglur fel bod myfyriwr yn gallu deall pam y cafodd y dystiolaeth ei dewis a sut y cafodd ei defnyddio i wneud y penderfyniad i ddyfarnu uned/gradd (os yw hyn yn berthnasol), os byddan nhw eisiau apelio eu gradd ar gyfer yr uned
- beidio achosi dosbarthiad gwahanol o ddeilliannau ar lefel y garfan i'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol oni bai bod esboniad i gefnogi hyn.

## Beth i'w wneud os na fydd hi'n bosibl cael digon o dystiolaeth i ddyfarnu uned?

Os nad yw'n bosibl cynhyrchu digon o dystiolaeth i ddangos bod deilliannau dysgu'r uned wedi eu cyflawni, ni cheir dyfarnu'r uned honno drwy ystyried amgylchiadau esgusodol. Yn rhan o'r broses ddyfarnu eithriadol, gellir defnyddio nifer o ddulliau dyfarnu eraill. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- ystyried cyflawniad rhannol
- rhoi dyfarniad aegrotat
- caniatáu estyniad i'r cwrs astudio.

# Atodiad E2: Siart llif y broses atgyfeirio



<table>
<tr><th colspan="3"><h2>Rheoli fersiynau</h2></th></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl y ddogfen<br><br>Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch<br>- Dogfen Reoleiddiol: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad o'r ddogfen<br><br>Y ddogfen hon yw Adran E y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd gofyn i Asiantaethau DMiAU eu cymryd i sicrhau bod dyfarniadau a deilliannau'r myfyrwyr yn cael eu rheoli a'u prosesu mewn ffordd briodol. Mae hon yn ddogfen reoleiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Perchennog y ddogfen</td><td>Rheolwr y Diploma Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA</td><td>Dyddiad: Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lleoliad cyhoeddi</td><td>https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/cynllun-graddio-mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill<br><br>y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch<br>yr Amodau Mynediad i AU<br>y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU - Adrannau B i E<br>Manyleb y Diploma Mynediad i AU<br><br>I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y dyddiad adolygu nesaf</td><td>Dyddiad: Gorffennaf 2028</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Y dyddiad cyhoeddi</td><td>Y wybodaeth wedi ei diweddaru</td></tr>
<tr><td>1.0</td><td>Gorffennaf 2024</td><td>Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf</td></tr>
<tr><td>2.0</td><td>Mawrth 2025</td><td>Newidiwyd y gair Saesneg am 'atodiad' drwy'r ddogfen gyfan<br><br>Paragraff cyntaf y Cyflwyniad - ychwanegwyd "Mae Amod F1.1 yr Amodau Mynediad i AU yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU eu dilyn."<br><br>Ail baragraff y Cyflwyniad - addaswyd y frawddeg gyntaf er mwyn cyfateb â'r geiriad yn Amod A2 yn well, yn benodol "i ddyfarnu ac ardystio'r Diploma Mynediad i AU"<br><br>Paragraff cyntaf yr adran am y Bwrdd Dyfarnu - addaswyd y testun er mwyn cyfeirio at, a chyfateb â, y geiriad yn Amod F1.1 yn well<br><br>'Cyfrifoldebau'r bwrdd dyfarnu' - ychwanegwyd cyfeiriad at Amodau A2 ac A5 yn y frawddeg olaf<br><br>Ychwanegwyd adran 6 newydd sy'n cynnwys gwybodaeth am</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | y broses ddyfarnu eithriadol, a gyhoeddwyd yn flaenorol fel adendwm i Adran E<br><br>Ychwanegwyd paragraff cyntaf newydd at adran 7 'Camymddwyn academaidd' sy'n cynnwys gwybodaeth am Amod E3 yr *Amodau Mynediad i AU* 'Camymddwyn academaidd (gan gynnwys mewn perthynas ag offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol)'<br><br>Ychwanegwyd paragraff cyntaf newydd at adran 8 'Apeliadau' sy'n cynnwys gwybodaeth am Amod A5 yr *Amodau Mynediad i AU* 'Cwyno ac apelio'<br><br>Ychwanegwyd paragraff olaf newydd at adran 8 c) 'Apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Fyrddau Dyfarnu': "Os bydd yr apelydd o'r farn nad yw'r Asiantaeth DMiAU wedi dilyn y broses apelio, dylent gwyno mewn ysgrifen i QAA o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad derbyn canlyniad eu hapêl gan yr Asiantaeth DMiAU (www.accesstohe.ac.uk/contact-us/concerns)."<br><br>Ym mrawddeg gyntaf adran 9 'Cwynion', ychwanegwyd cyfeiriadau at Amod A5 'Cwyno ac apelio' ac Amod A2 'Atebolrwydd' yr *Amodau Mynediad i AU*<br><br>Ychwanegwyd paragraff cyntaf newydd at adran 11 'Proses ardystio'r Asiantaeth DMiAU': "Mae Adran F yr *Amodau Mynediad i AU* yn nodi'r gofynion o ran tystysgrifau a thrawsgrifiadau o gyflawniad a gyflwynir gan Asiantaethau DMiAU."<br><br>Ychwanegwyd Atodiad E1 sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses ddyfarnu drwy ystyried amgylchiadau esgusodol, a gyhoeddwyd yn flaenorol fel adendwm i Adran E<br><br>Ychwanegwyd "Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis MIS 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch."<br><br>yn lle<br><br>"Mae'r adran hon o'r Cynllun Graddio'n cymryd lle'r adran gyfatebol yng Nghynllun Graddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Medi 2020). Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen. Hefyd, diweddarwyd Manyleb y Diploma Mynediad i AU i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen."<br><br>Diweddarwyd yr adran am reoli fersiynau |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.

Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch* (Ionawr 2020) a'r *Cynllun Graddio* (Medi 2020) sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au.

Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au